2. GRYM BLODAU
(Yr Haf)

Un tro glaniodd hedyn dant y llew mewn nant ar gwr y goedwig. Gwreiddiodd ac mewn dim tyfodd yn dal a chryf, gan flodeuo'n dda.

Un dydd, wrth i'r dant y llew syllu ar ei adlewyrchiad yn y nant a gweld mor olygus ydoedd, dywedodd wrtho'i hun, 'Y llew yw brenin y jyngl, a'r haul yw brenin yr awyr. A byddaf innau'n frenin y goedwig.'

'Dywed wrth y blodau fod ganddynt frenin newydd,' rhoddodd orchymyn i wenynen oedd yn pasio heibio.

'Bss . . . bss . . . Y dant y llew yw'r brenin. Y dant y llew yw'r brenin.' Aeth y newydd ar led trwy'r goedwig.

'Oes ganddo unrhyw hawl i fod yn frenin?' ystyriodd cloch las y gog.

'Wn i ddim,' meddai'r friallen. 'Beth am holi'r hen dylluan ddoeth?'

Edrychodd y dylluan ddoeth yn ei llyfr cyfraith y goedwig. 'Fe ddywed y gyfraith fod angen brenin mwy i benodi brenin llai,' hysbysodd hwy. 'Rhaid i ddant y llew dderbyn bendith yr haul i deyrnasu.'

Pan glywodd dant y llew hyn, trefnodd i gyfarfod â'r haul ben bore'r dydd canlynol.

Yna galwodd yr holl flodau ynghyd. 'Yn y dyfodol, disgwyliaf weld rhywfaint o welliant ym mywyd y goedwig yma,' cyhoeddodd.

Roedd y gwelliant cyntaf yn ymwneud â'u hymddygiad. 'O hyn ymlaen mae pob blodyn i agor yn brydlon ar doriad gwawr,' gorchmynnodd.

Roedd yr ail welliant yn ymwneud â'u pryd a'u gwedd. 'Mae gormod lawer o amrywiaeth yma,' cwynodd y dant y llew. 'O hyn ymlaen dim ond blodau crwn euraidd fel fi sydd i gael tyfu yma.'

Roedd y trydydd gwelliant yn ymwneud â drain. Tra oedd yn siarad gostyngodd dant y llew ei lais gan swnio'n grefyddol iawn. 'Mae drain yn ddrwg ac ni ddylent dyfu ar flodau,' rhybuddiodd. 'Dim ond blodau heb ddrain gaiff fynd i'r nefoedd.'

Pan glywodd y rhosyn gwyllt a dyfai ymhlith y mieri hyn, cymerodd arno nad oedd yn hidio. 'Wel, dyna ni. Mae gen i fwy o ddrain na phetalau. Dim nefoedd i mi!' dywedodd.

Y bore canlynol, wrth iddi wawrio, ymddangosodd yr haul. 'O Haul, diolchaf i ti nad wyf fi fel blodau eraill – clychau'r gog swnllyd, eirlysiau llipa, fioledau ymlusgol. Diolch yn arbennig nad wyf fel yr hen rosyn pigog ofnadwy sydd draw fan acw. Rwy'n grwn – fel ti. Ac yn aur – fel ti. Ac mae 'nghoes i mor esmwyth â sidan.'

Tawodd gan ddisgwyl i'r haul ei fendithio.

Am ennyd bu tawelwch. Yna'n sydyn cododd y rhosyn gwyllt ei lais. Doedd o ddim wedi bwriadu dweud dim. . . ond roedd golau'r haul mor bur . . . ac fe deimlai'n drwm dan ddrain. 'Bydd drugarog! Bydd drugarog wrthyf, o Haul!' llefodd. 'Mae'n arw gen i am fy nrain.'

Ar unwaith bendithiodd yr haul y rhosyn. Ac wrth ei fendithio agorodd petalau'r rhosyn yn lled-agored a llanwodd ei arogl pêr y goedwig.

'Na! Na! Rwyt ti wedi bendithio'r blodyn anghywir.' Ysgydwodd dant y llew ei ben yn gynddeiriog. Y . . . y . . . y – dyna ryfedd! Roedd ei betalau'n teimlo'n ysgafnach nag arfer. Plygodd ei ben tua'r nant i syllu ar ei adlewyrchiad a rhoddodd ochenaid dorcalonnus. O na! Roedd y pen hardd melyn wedi diflannu ac yn

ei le roedd pelen druenus o fflwff.

'Fy nghoron! Mae 'nghoron wedi diflannu!' llefodd.

'Mae'n ymddangos.s.s.s nad wyt ti'n frenin wedi'r cyfan', suodd y wenynen.

HYD 3–4 munud

NEGES Nid cadw rheolau sy'n bwysig yn ein perthynas â Duw, ond cyffesu'n pechodau a gofyn am faddeuant.

DARLLEN Luc 18: 9–14